**CYNGOR GWYNEDD**
**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cau Ysgol Baladeulyn, Nantlle, Gwynedd LL54 6BT. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorai, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **31 Rhagfyr 2026.**

Yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni bydd disgyblion cyfredol Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn, Talysarn, Gwynedd, LL54 6HR ar 1 Ionawr 2027. Mae Ysgol Talysarn yn Ysgol Gymuned Cyfrwng Cymraeg, Categori 3, i ddisgyblion 3 i 11 oed wedi ei leoli yn Talysarn.

Bydd dalgylch Ysgol Talysarn yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch Ysgol Baladeulyn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd.

Ni fydd angen cymryd unrhyw gamau eraill i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Talysarn.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynhaliol a Chyngor Gwynedd fydd yn gweithredu'r cynnig yma.

Mae'r cynnig hwn wedi ei lunio o ganlyniad i'r angen i gyfarch y niferoedd isel o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Baladeulyn ac o ganlyniad, maint bychain y dosbarthiadau, yn ogystal â rhagamcanion isel o niferoedd i'r dyfodol. Nid oedd yr un o'r opsiynau eraill a adnabuwyd ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys ffederaleiddio, yn mynd i'r afael a'r heriau yma. Fel canlyniad ystyrir mai cau'r ysgol yw'r ymateb mwyaf priodol.

**Cyfnod Gwrthwynebu**
Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **30 Mehefin 2026.** Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at sylw'r Pennaeth Addysg i: moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

Llofnodwyd: **Gwern ap Rhisiart**
Gwern ap Rhisiart, Y Pennaeth Addysg, ar ran Cyngor Gwynedd
Dyddiad Cyhoeddi: **3 Mehefin 2026**

**NODYN ESBONIADOL** (Nid yw'r isod yn rhan o'r hysbysiad ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)

Yn dilyn proses ymgynghori, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a bydd lle yn cael ei ddarparu i'r disgyblion yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.
Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae gan rieni hawl i wneud cais mynediad (neu gais i drosglwyddo) i unrhyw ysgol. Bydd darpariaeth cludiant ysgol am ddim ar gael i'r disgyblion sy'n gymwys am gludiant yn unol â Polisi Cludiant Addysg Gwynedd.

**CYNGOR GWYNEDD**
**Council Offices, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Notice is hereby given in accordance with section 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Cyngor Gwynedd, having consulted such persons as required, propose to discontinue Ysgol Baladeulyn, Nantlle, Gwynedd LL54 6BT. The school is currently maintained by Cyngor Gwynedd.

Cyngor Gwynedd undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and Estyn's full response, is available on: www.gwynedd.llyw.cymru/modernisingeducation

It is proposed to implement the proposal on **31 December 2026**.

Subject to parental choice, current pupils of Ysgol Baladeulyn will transfer to Ysgol Talysarn, Talysarn, Gwynedd, LL54 6HR on 1 January 2027. Ysgol Talysarn is a Category 3, Welsh-medium community school, for pupils aged 3 to 11, located in Talysarn.

The catchment area of Ysgol Talysarn will be extended to include the catchment area of Ysgol Baladeulyn from 1 January 2027 onwards.

Transport will be provided to the school in accordance with Cyngor Gwynedd's Education Transport Policy.

It will not be necessary to take any other measures to increase the number of school places at Ysgol Talysarn.

Cyngor Gwynedd is the maintaining authority and will implement this proposal.

This proposal has been formulated as a result of the need to address the low number of pupils attending Ysgol Baladeulyn and, as a result, the small class sizes, together with low projected future numbers. None of the other options identified for the school, including federation, addressed these challenges. As a result, closing the school is considered the most appropriate response.

**Objection Period**
Within a period of 28 days of the date on which the proposal was published, that is to say, by **30 June 2026,** any person may object to the proposal. Written objections should be sent to the Head of Education, Cyngor Gwynedd, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH, or by sending an e-mail directed to the Head of Education to: modernisingeducation@gwynedd.llyw.cymru

Signed: **Gwern ap Rhisiart**
Gwern ap Rhisiart, Head of Education, on behalf of Cyngor Gwynedd
Publication Date: **3 June 2026**

**EXPLANATORY NOTE** (The following does not form part of the notice but is intended to explain its purpose)

Following a consultation process, Cyngor Gwynedd proposes to close Ysgol Baladeulyn on 31 December 2026, with places to be provided for pupils at Ysgol Talysarn from 1 January 2027 onwards. In accordance with the Authority's admissions policy, parents are entitled to apply for admission (or a transfer request) to any school. Free school transport will be available for eligible pupils in accordance with Cyngor Gwynedd's Education Transport Policy.